

## Cwestiynau Cyffredin Parc Gwledig Pen-bre

- **Pa amser mae'r parc ar agor?**  
Bydd y parc ar agor rhwng 6am -10pm bob dydd.
- **Faint o'r gloch mae llinellau ffôn ar agor**  
Mae ffonau ar gael 10am - 4pm bob dydd
- **A oes unrhyw weithgareddau ar agor?**  
Ydy, mae'r holl weithgareddau ar agor. Rhaid i chi archebu ymlaen llaw ar-lein
- **A oes angen i mi archebu gweithgaredd chwaraeon awyr agored ymlaen llaw?**  
Oes, bydd angen i chi archebu slot amser ymlaen llaw ar gyfer pob gweithgaredd chwaraeon.  
[https://penbre-sirgar.bookinglive.com/cy\\_GB/canolfan-sgio-a-gweithgareddau-2/](https://penbre-sirgar.bookinglive.com/cy_GB/canolfan-sgio-a-gweithgareddau-2/)
- **A fydd y lleoedd chwarae ar agor?**  
Byddant. Fodd bynnag, ni ellir dileu risg, ac mae rhieni a gwarcheidwaid yn cael eu hannog i sicrhau nad yw lleoedd chwarae yn mynd yn rhy brysur, ac i gymryd cyfrifoldeb dros gadw pellter cymdeithasol, yn enwedig oedolion a phlant dros 11 oed. Rydym hefyd yn annog pobl i olchi neu ddiheintio eu dwylo'n aml, peidio â bwyta nac yfed mewn lleoedd chwarae, sychu'r cyfarpar gyda'ch clytiau eich hun, a gofalu bod y niferoedd sydd mewn lleoedd chwarae ac sydd ar y cyfarpar yn fach drwy gymryd eich tro neu ddychwelyd i ddefnyddio'r lleoedd chwarae ar adeg dawelach.
- **A fydd modd i mi brynu bwyd a diod?**  
Bydd Yr Orsaf ar agor ar gyfer cludfwyd a tŷ allan. Mae Ciosg y Traeth ar agor ar yr adegau prysuraf yn amodol ar y tywydd. Mae'r Caffi Sgïo ar gau ar hyn o bryd
- **A fydd y Ganolfan Ymwelwyr ar agor?**  
Bydd y Ganolfan Ymwelwyr yn aros ar gau. Ffon 01554 742435
- **Sut gallwn ni gysylltu ag aelod o staff?**  
Gallwch gysylltu â'r tîm drwy ffonio 01554 742435 neu anfon e-bost at [gwybodaethpenbre@sirgar.gov.uk](mailto:gwybodaethpenbre@sirgar.gov.uk)
- **Sut mae prynu neu adnewyddu hawlen barcio?**  
Gallwch brynu hawlen barcio newydd neu adnewyddu eich hawlen barcio ar-lein yn:  
<https://www.pembreycountrypark.wales/parking-annual-parking-permits/>